

**AMGUEDDFA
CYMRU**

**HANES CUDD CYMRU A
CHAETHWASIAETH**





Rydyn ni'n cydnabod bod rhan fach o'r deunyddiau hanesyddol a ddefnyddir yn yr adnodd hwn yn cynnwys geiriau neu ddelweddau gofidus neu sarhaus. Rydyn ni wedi gwneud y penderfyniad i beidio â dileu na chyfyngu ar gynnwys hanesyddol gan ei fod yn bwysig o ran olrhain ein hanesion amrywiol. Yn hytrach, rydyn ni'n gweithio i nodi a rhoi cyddestun i unrhyw gynnwys a allai fod yn ofidus neu'n sarhaus.



CYFLWYNIAD

Roedd y fasnach drawsatlantig mewn pobl gaeth o Affrica, a ddechreuodd yn y 1500au, yn enfawr o ran graddfa. Cafodd o leiaf 12 miliwn o Affricanwyr eu cludo dramor drwy rym i fod yn weithwyr llafur caeth.

Elwodd Cymru o'r fasnach hon mewn sawl ffordd, ond yn aml mae'n anodd gweld y ffyrdd y gwnaeth Cymru elwa.






CYFLWYNIAD

Gadewch i ni edrych ar wrthrychau a allai ymddangos fel nad oes ganddyn nhw ddim i'w wneud â'r fasnach drawsatlantig mewn pobl gaeth o Affrica.

Wrth edrych ar y gwrthrychau, mae'n bosib y cewch chi gwestiynau amdany'n nhw. Does dim atebion cywir nac anghywir.

DEWISWCH
WRTHRYCH I'W
ARCHWILIO



**BETH YDYCH CHI'N
CREDU YW'R
GWRTHRYCHAU
HYN?**



*‘Manillas’ neu freichledi
yw’r rhain.*

*Roedd y breichledi
wedi’u creu o gopr a
phres ac roedden nhw’n
cael eu defnyddio fel
math o arian cyfred.
Bydden nhw’n cael eu
masnachu ar hyd
arfordir Affrica am bobl
gaeth.*




*Gallai rhywun gael ei werthu i
gaethwasiaeth am rhwng 12 a
25 breichled. Ar ôl 1750, cododd
y pris i tua 50 breichled wrth i'r
galw am bobl gaeth dyfu.*



GWAITH COPR WHITE ROCK, 1744



*Mae'r llun hwn yn dangos
gwaith copr White Rock, ger
Abertawe. Roedd copr yn cael ei
ddefnyddio i greu'r breichledi,
ac yn y gwaith hwn roedd
ganddyn nhw adeilad o'r enw
'Manilla House'.*



**PWY YDYCH CHI'N MEDDWL
YW'R UNIGOLYN YMA?**

**A BETH ALLAI EU STORI
NHW FOD?**

**GADEWCH I NI WELD OS YW EICH
STORI CHI'N DOD YN AGOS AT Y
GWIR...**



THOMAS WILLIAMS (1737-1802)

SIR THOMAS LAWRENCE, 1790

*Daeth Thomas Williams, prif asiant
Mwyngloddiau Copr Parys ar Ynys
Môn, yn ffigur blaenllaw yn nechrau'r
Chwyldro Diwydiannol. Fe oedd yn
dominyddu'r diwydiant copr ym
Mhrydain am gyfnod.*



Ym 1788, pan oedd Senedd
San Steffan yn penderfynu a
ddylen nhw leihau nifer y bobl
gaeth a ganiatawyd i gael eu
cludo ar longau Prydain,
gwrthwynebodd Thomas
Williams unrhyw newidiadau.
Honnodd fod y nwyddau copr
a oedd yn cael eu cynhyrchu
ganddo 'yn gyfan gwbl ar
gyfer marchnad Affrica ac
nad oedd modd eu gwerthu i
unrhyw un arall'.

Cofnodion Tŷ'r Arglwyddi o 1788 ►

Journals of the House of Lords. 1788.

A Petition of *Thomas Williams*, Esquire, on Behalf of himself and his Copartners in the Manufacture of Brass Battery, and other Copper, Brass, and mixed Metal Goods, for the *African Trade*, at *Hollowell*, in the County of *Flint*, *Penclaredd*, in the County of *Glamorgan*, and *Temple Mills*, in the County of *Berks*, was presented to the House, and read; Setting forth, That the Petitioner and his Copartners have laid out a Capital of 70,000 *l.*, and upwards, to establish themselves in the aforesaid Manufactories, which are entirely for the *African Market*, and not saleable for any other; and that the Petitioner has lately been informed, that a Bill is now depending in the House, for the Purpose of regulating, for a limited Time, the shipping and carrying Slaves in *British Vessels*, from the Coast of *Africa*, which the Petitioner is informed, and believes, will greatly hurt, if not entirely ruin, the *British Trade to Africa* in the Manufactures aforesaid, whereby the Petitioner and his Partners would lose the greatest Part of the aforesaid Capital, unless they are indemnified: And therefore praying, That he may be heard, by Counsel, against the said Bill, and that the same may not pass into a Law without an adequate Indemnity, or such other Relief as to the House shall seem meet.

A Motion was made, and the Question being pro-

Journals

the Coast of
and believes
the *British*
said, where
lose the gre
they are in
he may be
and that the
adequate In
House shall

A Motion
posed, That
until the Bill
ping and c
the Coast of
the Petitione
the said Bill,

An Amend
Question, by
" to regulate
" carrying Sla
" of *Africa*,
" Petitioner

the Coast of
and believes

Mwyngloddiau copr ar Fynydd Parys, John Smith, 1785 ▼

Mae'r paentiad hwn yn dangos mwyngloddiau copr Parys ar Ynys Môn.

Roedd copr yn cael ei ddefnyddio i greu'r breichledi manilla, ac roedd hefyd yn cael ei ddefnyddio i greu 'Ffyn Gini'. Fel y breichledi, roedd y ffyn yn cael eu defnyddio fel arian cyfred i fasnachu â phobl ar hyd Arfordir Gini am bobl gaeth.



**PWY YDYCH CHI'N MEDDWL
YW'R UNIGOLYN YMA?**

**A BETH ALLAI EU STORI
NHW FOD?**

**GADEWCH I NI WELD OS YW EICH
STORI CHI'N DOD YN AGOS AT Y
GWIR...**



THOMAS PICTON (1758-1815)

SIR MARTIN ARCHER SHEE, 1810S

*Cafodd Thomas Picton ei eni yn
Hwlfordd ym 1758. I lawer, roedd Picton
yn cael ei ystyried yn arwr rhyfel ac yn
rhywun oedd yn ennyn balchder
cenedlaethol i bobl Cymru.*





*Picton oedd rhaglaw Prydeinig
cyntaf Trinidad ac roedd yn
adnabyddus am ei ffordd
ddidrugaredd o drin pobl gaeth.*


THE TRIAL
OF
GOVERNOR T. PICTON,
FOR
INFLECTING THE TORTURE
ON
LOUISA CALDERON,
A Free Mulatto,
AND ONE OF HIS BRITANNIC MAJESTY'S SUBJECTS,
IN THE
ISLAND OF TRINIDAD.
—
TRIED BEFORE
LORD CHIEF JUSTICE ELLENBOROUGH
AND A SPECIAL JURY,
AND
FOUND GUILTY.


Taken in Short-Hand during the Proceedings on
the 24th of February, 1806.

*Ym 1803, cafodd ei ddwyn i'r
llys yn Llundain am awdurdodi
arteithio Louisa Calderon,
merch 14 oed. Cafodd arian ei
ddwyn o'r tŷ lle'r oedd Louisa'n
gweithio fel morwyn, ac roedd
Picton yn credu ei bod hi naill
ai'n gwybod pwy wnaeth
ddwyn yr arian neu ei bod hi'n
rhan o'r lladrad.*

◀ *Achos Llys y Rhaglaw T. Picton, 1806,*

*Cafodd Louisa ei hongian
gerfydd ei harddwrn o
sgaffald am bron i awr,
gyda'i phwysau i gyd yn
pwyso ar beg pren oedd ben i
waered – dull annioddefol o
boenus o arteithio rhywun,
sef picedu.*





Yn ystod yr achos, ymchwiliwyd i Picton hefyd am arteithio, dienyddio a llosgi pobl gaeth oedd wedi'u cyhuddo o ddewiniaeth yn fyw. Roedd ei lu milwrol bach yn crogi ac yn anffurfio pobl fel ffordd o gadw rheolaeth. Cafwyd Picton yn euog ond ni chafodd ei ddedfrydu.



**SUT GALLAI'R PAENTIAD HWN FOD YN
GYSYLLTIEDIG Â'R FASNACH DRAWSATLANTIG
MEWN POBL GAETH O AFFRICA?**



The background of the entire image is a painting of a watermill. The mill is a two-story stone building with a dark, gabled roof. A large wooden wheel is visible on the side, partially submerged in a stream. A horse is tied to a post in front of the mill. In the foreground, a woman in a blue dress and a child are standing near a large rock. The landscape is lush with green trees and foliage. The sky is a mix of soft, pastel colors.

*Dyma olygfa brydferth o
Felin Cynwyd, yn Sir
Feirionnydd.*

*Yn y paentiad gallwch
weld melin bannu, sef
melin a oedd yn creu
brethyn. Roedd llawer
o'r rhain i'w cael ledled
Sir Feirionnydd a Sir
Drefaldwyn.*

The painting depicts a rural landscape. On the left, a two-story stone building with a dark, gabled roof stands on a grassy bank. A white horse is tethered near a dark doorway. To the right of the building, a wooden structure, possibly a mill or a bridge, is partially visible. In the foreground, a woman in a blue and white dress stands near a small child. To the right, a waterfall cascades over dark, jagged rocks into a pool of water. The background features rolling hills and a large, leafy tree. The overall style is that of an 18th-century landscape painting.

*Yn ystod y 1700au roedd
melinau pannu fel hyn
yn cynhyrchu brethyn
Cymreig a ddaeth i gael
ei alw'n 'Welsh Plains'.*

Daeth y 'Welsh Plains' yn boblogaidd oherwydd bod angen i berchnogion y bobl gaeth o Affrica ddarparu dillad ar eu cyfer nhw. Roedden nhw'n defnyddio brethyn Cymreig gan ei fod yn ddefnydd gwydn a rhad.



Golygfa ramantlyd o bobl gaeth yn torri cansenni siwgr ar blanhigfa Henry De La Beche yn Jamaica, 1824

Byddai angen dillad newydd ar y bobl gaeth bob hydref, gan fod eu dillad wedi'u gwisgo'n garpiau. Byddai pob unigolyn caeth yn cael tua phedwar metr o frethyn Cymreig, a fyddai'n cael ei ddefnyddio i greu siacedi, trowsusau a ffrogiau.



Golygfa ramantlyd o bobl gaeth yn torri cansenni siwgr ar blanhigfa Henry De La Beche yn Jamaica, 1824

WALES.

TOURS IN WALES.

THOMAS PENNANT, ESQ.

THERE is in this town no manufacture considerable enough to merit mention; but it draws very great profit from those of *Montgomeryshire*. This place is the chief mart for them. About 700,000 yards of *Welsh* webbs, a coarse kind of woollen cloth, are brought here annually, to the *Thursday* market; and bought up and dressed, that is, the wool is raised on one side, by a set of people called *Shearmen*. At this time only forty are employed; but in the time of Queen *Elizabeth* the trade was so great, that not fewer than six hundred^a maintained themselves by this occupation. The cloth is sent chiefly to *America*, to clothe the *Negroes*; or to *Flanders*, where it is used by the peasants.

Yn ei lyfr, A Tour in
Wales, soniodd
Thomas Pennant fod
brethyn Cymreig yn
cael ei werthu yn y
farchnad yn yr
Amwythig a'i brynu
er mwyn darparu
dillad i'r bobl gaeth.

*Mae'r testun o'r llyfr yn cynnwys
geiriau hiliol a sarhaus a oedd yn cael
eu defnyddio yn ystod y cyfnod.



**PWY YDYCH CHI'N MEDDWL
YW'R UNIGOLYN YMA?**

**A BETH ALLAI EU STORI
NHW FOD?**

**GADEWCH I NI WELD OS YW EICH
STORI CHI'N DOD YN AGOS AT Y
GWIR...**



EDWARD WILLIAMS (1747-1826)

ARTIST ANHYSBYS

Dyma baentiad o Edward Williams, neu Iolo Morganwg. Sefydlodd Iolo Orsedd y Beirdd, a ddaeth yn gysylltiedig â'r Eisteddfod erbyn 1819.



*Roedd yn berchen ar
siop yn y Bont-faen,
a dywedir ei fod ond
yn gwerthu 'Losin o
India'r Dwyrain, heb
eu halogi â gwaed
dynol'.*





*Roedd planhigfeydd siwgr yn
defnyddio pobl gaeth, ac felly ni
fyddai'r cynhyrchion siwgr a
fyddai'n cyrraedd Prydain yn bodoli
heb lafur pobl gaeth. Gwrthododd
lolo werthu cynhyrchion oedd yn
gysylltiedig â phobl gaeth.*

*Er i lolo osgoi'r fasnach mewn pobl
gaeth, roedd ei dri brawd, a
symudodd o Gymru i Jamaica, yn
ennill bywoliaeth drwy bobl gaeth.*

◀ *Edward Williams (Iolo Morgannwg)*

“

***‘Mae gen i dri brawd
cyfoethog iawn yn Jamaica
sydd, mae’n debyg, yn werth
chwe deg mil o
bunnoedd....Rwy’n deall bod
gan fy mrodyr, sy’n cynnal
busnes mewn Partneriaeth,
dros ddau gant a deugain o
gaethweision!’***

*Llythyr gan Iolo Morganwg at Miss Barker, 26
Mawrth 1798*

”



*Roedd Iolo'n cefnogi William
Wilberforce a'r mudiad Diddymu
a oedd yn ceisio diddymu
caethwasiaeth yn llwyr.*

*Yn y llythyr, siaradai'n ddramatig
am sut y byddai'n well ganddo
weld ei blant yn llwgu na bwyta
unrhyw beth oedd yn gysylltiedig
â'r fasnach drawsatlantig mewn
pobl gaeth o Affrica.*

▲ *Medal gwrth-
gaethwasiaeth*

◀ Llythyr gan Iolo Morganwg at
William Owen Pughe, 25 Awst 1803

Bydded i Gefnfor helaeth yr Iwerydd
lynen Jamaica, a phob gwlad arall sy'n
masnachu ac yn dal pobl gaeth, cyn i
fy mab neu ferch fwyta'r un tamaid a
fyddai'n eu hatal rhag marw o newyn,
os mai cynnyrch caethion ydyw.

dychwelyd


**SUT GALLAI'R PAENTIAD HWN FOD YN
GYSYLLTIEDIG Â'R FASNACH DRAWSATLANTIG
MEWN POBL GAETH O AFFRICA?**



*Dyma baentiad o Waith
Haearn Cyfarthfa, sef y
gwaith haearn mwyaf yn y
byd ar un adeg.*


*Sefydlwyd y gwaith gan
Anthony Bacon ym 1765.
Enillodd Bacon ffortiwn
drwy gludo nwyddau a phobl
gaeth. Erbyn 1765, roedd
wedi cludo o leiaf 1,230 o
bobl gaeth ar fwrdd llongau
oedd yn eiddo iddo.*

*Anfonodd Bacon o leiaf
1,323 o bobl gaeth i
weithio ar adeiladu
caerau a phrojectau
llywodraeth eraill rhwng
1769 a 1771. Cafodd y
bobl gaeth a anfonwyd
gan Bacon 'eu
'camddefnyddio'n wael
iawn' a buon nhw farw
hyd yn oed yn gyflymach
na'u cyfoedion yn y
caeau cansenni siwgr.'*



▲ Golygfa o Ferthyr Tudful, 1867

*Buddsoddodd yr arian a
enillodd wrth
ddatblygu'r diwydiant
haearn ym Merthyr
Tudful, ac roedd yn
berchen ar dri gwaith
haearn yn yr ardal
erbyn adeg ei
farwolaeth ym 1786.*



▲ Golygfa o Ferthyr Tudful, 1867

Roedd cyfarfodydd gwrth-gaethwasiaeth yn cael eu cynnal ledled Cymru drwy gydol y 1800au. Argraffwyd y poster hwn yn Abertawe ac roedd yn hysbysebu darlith a fyddai'n cael ei thraddodi yn Nowlais gan John Brown.

Poster yn hysbysebu darlith John Brown yn ystafell Ysgol Merched Dowlais, 11 Awst 1852

AMERICAN

FOR ONE NIGHT
ONLY,



SLAVERY.

As the Lecturer is
under an obligation
to return to Upper
Canada.

On *Wednesday* Evening, *August 11th* 1852

LECTURE

WILL BE DELIVERED IN THE

Dowlais Girls' School-room

BY

MR. JOHN BROWN,

A Man of Colour, from the State of Georgia,

When he will detail his experience of American slavery and wonderful escape.

He is noted for his object, and supported by People of all Denominations. A number of testimonials from influential Gentlemen may be seen on application.

Drawings will be exhibited showing his escape, capture, and punishment: he will also appear in his horns and bells, such as are worn by recaptured slaves.

Mr. J. B. will recite the sufferings he endured under the hands of Dr. Hamilton, who practiced upon him for experiments: one of which was to put him down into a burning hot pit dug in the earth, and almost deprived him of respiration, to try the strength of his constitution,—the manner of which process he will fully demonstrate to the satisfaction of the audience, by burning a portion of atmospheric air in their presence. He will also introduce his Magic Bottle, showing the pressure of the Atmosphere; he will explain the reason why a Coloured Man can stand a greater degree of heat than a White Person.

Doors open at Seven o'Clock; the Chair to be taken at Eight o'Clock.—Admission: Front Seats, 6d.; Back Seats, 3d.; Children and Schools, Half-price. Tickets may be had of *at the Dowlais*

W. MORRIS, PRINTER AND STATIONER, STAMP-OFFICE, HIGH-STREET, SWANSEA.

The Cardiff and Merthyr Guardian,

GLAMORGAN, MONMOUTH, AND BRECON GAZETTE.

—Y GWIR YN ERBYN Y BYD.—“TRUTH AGAINST THE WORLD.”


[Price 4d., or 5s. PER QUARTER.]

CARDIFF, SATURDAY, JULY 31, 1852.

Vol. 20.—No. 1,070.]

A MAN AND A BROTHER.—On Tuesday evening last a lecture was delivered in the Temperance Hall, Glebeland, on Slavery in the United States, by Mr. John Brown, a man of colour, from the State of Georgia, who detailed his experience of American slavery and wonderful escape. A number of testimonials from influential gentlemen were shown on application. Drawings were exhibited showing his escape, capture, and punishment; he also appeared in his horns and bells, such as are worn by recaptured slaves. He recited the sufferings he had endured under the hands of one Dr. Hamilton, who practised upon him for experiments; one of which was to put him down into a burning hot pit dug in the earth, and almost deprive him of respiration, to try the strength of his constitution, the manner of which process he demonstrated to the audience by burning a portion of atmospheric air in their presence. He also explained the

Nid y ddarlith yn Nowlais
oedd yr unig un a
gynhaliwyd ym Merthyr
Tudful. Ym mis Gorffennaf
1852, traddododd John
Brown ei ddarlith yn y
Neuadd Ddirwest.
Siaradodd am ei fywyd fel
caethwas a'i ddihangfa.




**AMGUEDDFA
CYMRU**

**HANES CUDD CYMRU A
CHAETHWASIAETH**



I weld mwy o adnoddau
dysgu, ewch i dudalennau
Dysgu yr Amgueddfa drwy'r
ddolen isod

amgueddfa.cymru/dysgu/



**MWY O ADNODDAU DYSGU AM HANES
CAETHWASIAETH A CHYMRU**